Manchester Metropolitan University

UNIVERSITY OF LIVERPOOL

Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol Cymru
National Independent Safeguarding Board Wales

# Risg, Ymateb ac Adolygu: Diogelu Amlasiantaeth

DADANSODDIAD THEMATIG O ADOLYGIADAU YMARFER PLANT YNG NGHYMRU 2023

ADRODDIAD BRIFFIO
AWST 2023





**AWDURON**

**Yr Athro Michelle McManus,** Athro Diogelu ac Atal Trais ym Mhrifysgol Metropolitan Manceinion.

**Emma Ball,** Cydymaith Ymchwil Diogelu ac Atal Trais ym Mhrifysgol Metropolitan Manceinion.

**Yr Athro Louise Almond,** Athro Seicoleg Ymchwiliol a Fforensig ym Mhrifysgol Lerpwl.



“Mae angen gwneud rhagor o waith i gynorthwyo ymarferwyr i weithio’n hyderus, yn enwedig mewn meysydd ‘amwys’ lle mae yna ansicrwydd proffesiynol, lle ceir pryderon – ers amser weithiau – ond nad ydynt yn cyrraedd y trothwy ar gyfer ymyriad statudol”

# Risg, Ymateb ac Adolygu: Diogelu Amlasiantaeth

## DADANSODDIAD THEMATIG O ADOLYGIADAU YMARFER PLANT YNG NGHYMRU 2023

*Mae'r Adroddiad Briffio hwn yn crynhoi canfyddiadau adolygiad dadansoddol o 33 o Adolygiadau Ymarfer Plant a gynhaliwyd gan y chwe Bwrdd Rhanbarthol Diogelu Plant yng Nghymru rhwng 2013 a 2021.*

Os yw plant yn dioddef niwed sylweddol sy'n arwain at niwed difrifol a pharhaol neu farwolaeth yn eu teuluoedd, mae Adolygiad Ymarfer Plant yn rhoi cyfle i ddeall problemau a gwella ymarfer proffesiynol a sefydliadol. Mae Adolygiad Ymarfer Plant yn adolygiad amlasiantaeth sy'n cynnwys ymarferwyr, rheolwyr ac uwch-swyddogion ac mae'n archwilio manylion a chyd-destun gwaith asiantaethau gyda'r plentyn a'i deulu. Mae pob adolygiad yn cynrychioli digwyddiadau sy'n aml yn drallodus tu hwnt i ddioddefwyr, eu teuluoedd a'r ymarferwyr dan sylw. Rydym yn ddiolchgar am eu cyfraniad.

Cynhaliodd ein tîm ymchwil ddadansoddiadau disgrifiadol, casgliadol a thematig o 33 o Adolygiadau Ymarfer Plant. Nododd y dadansoddiadau dueddiadau cyffredin o ran ffactorau risg ac o ran yr ymateb diogelu amlasiantaeth ar draws y grŵp hwn o adolygiadau. At hynny, gwnaethom ddadansoddi ansawdd a chysondeb yr adolygiadau eu hunain. Gwnaethom geisio amlygu'r heriau, hybu ymarfer gwell a dileu rhwystrau i waith diogelu effeithiol ar draws y rhwydwaith diogelu proffesiynol cyfan.

Hoffai'r awduron bwysleisio bod yr adolygiadau hyn yn cynrychioli lleiafrif bach iawn o senarios diogelu, ac na ddylid cymryd eu bod yn adlewyrchu ymarfer diogelu proffesiynol yn gyffredinol. Fodd bynnag, mae'r lleiafrif hwn yn cynrychioli grŵp pwysig o achosion, lle mae'n rhaid lleihau tebygolrwydd digwyddiadau o'r fath yn y dyfodol a chymryd cymaint o gamau ag sy'n bosibl i wella a chryfhau ymarfer. Er na allwn warantu y byddai'r argymhellion a nodir yn yr adroddiad briffio hwn wedi helpu i osgoi'r canlyniadau trasig a ysgogodd yr Adolygiadau Ymarfer Plant hyn, rydym yn hyderus y byddant o gymorth i ddatblygu ymarfer diogelu gwell yn y dyfodol agos.

Nod yr adroddiad briffio hwn, yn ogystal â'r adroddiad llawn, yw bod yn adeiladol yn hytrach nag yn feirniadol. Diben pob Adolygiad Ymarfer Plant yw hybu gwelliant mewn ymarfer amlasiantaeth ac mewn ymarfer diogelu plant; yn yr un modd, diben ein hymchwil ni yw gwneud cymaint ag sy'n bosibl i leihau niwed a hybu dysgu – ledled Cymru ac ymhell y tu hwnt iddi.

PRIF GANFYDDIADAU

### 1. FFACTORAU RISG

Datgelodd ein dadansoddiad o'r plant a oedd yn destun adolygiad (plant blaen (*index children*)) ac o'u rhieni/gofalwyr dueddiadau sy'n amlygu'r angen i fod yn fwy ymwybodol o ffactorau risg ac i'w monitro'n fwy helaeth, yn enwedig pan fydd y rhain yn cyd-ddigwydd neu'n cronni. Gwnaethom ganfod:

- Bod dau o bob tri Adolygiad Ymarfer Plant wedi'u hysgogi gan farwolaeth plentyn.
- Mai hunanladdiad, problemau meddygol/iechyd eraill, a chamdriniaeth gorfforol nad oedd yn angheuol oedd y digwyddiadau mwyaf cyffredin.
- Roedd un o bob pump o'r plant rhwng 0 a 3 mis oed adeg y digwyddiad, ac roedd un o bob pump yn 13 oed neu hŷn.
- Roedd gan dri chwarter y plant frawd neu chwaer. O blith y rheini, roedd gan un o bob tri phlentyn hanner brawd neu hanner chwaer, a phlentyn ieuengaf y teulu oedd dau o bob tri.
- Y ffactorau risg mwyaf cyffredin ymhlith y rhieni/gofalwyr oedd camddefnyddio cyffuriau/alcohol, problemau iechyd meddwl, a pherthynas lle'r oedd cam-drin domestig yn digwydd.
- Roedd yna gydberthyniadau arwyddocaol ar draws y ffactorau risg hyn – yn enwedig o ran problemau iechyd meddwl, hanes troseddol, profiadau niweidiol yn ystod plentyndod, perthynas lle mae cam-drin domestig yn digwydd, a rhieni ifanc.
- Yn aml, roedd cydberthyniad rhwng rhieni/gofalwyr a oedd wedi profi trawma yn y gorffennol neu brofiadau niweidiol yn ystod eu plentyndod nhw, neu a fu'n blentyn a oedd yn derbyn gofal neu a oedd yn rhiant ifanc, a dangosyddion risg o ran ymddygiad (e.e. hanes troseddol a cham-drin domestig) neu amlygiadau mewnol (e.e. salwch meddwl neu gam-drin cyffuriau/alcohol).
- Y pethau yr oedd y plant yn fwyaf tueddol o'u dioddef oedd camdriniaeth emosiynol, esgeulustod a byw mewn amodau gwael yn y cartref.
- Ymhlith y plant hynny, roedd problemau iechyd meddwl a phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod yn cydberthyn i 12 ffactor risg arall.

- Roedd dau glwstwr o bethau a oedd yn cyd-ddigwydd ac yr oedd plant yn dueddol o'u dioddef – clwstwr o ffactorau mewnol (problemau o ran hunan-barch, meddwl am hunanladdiad, problemau o ran niwroamrywiaeth ac anawsterau dysgu) a chlwstwr o ffactorau allanol (esgeulustod, camdriniaeth gorfforol a chamdriniaeth emosiynol).

## 2. YMATEB: CYNNWYS AMRYW ASIANTAETHAU

Drwy ddadansoddiad disgrifiadol o'r Adolygiadau Ymarfer Plant, gwnaethom nodi pa sefydliadau ac asiantaethau a oedd yn ymwybodol o'r plentyn a/neu aelodau'r teulu cyn y digwyddiad, a pha mor ddwfn oedd y wybodaeth a oedd gan y sefydliadau hynny. Gwelsom:

- Fod un o bob tri Adolygiad Ymarfer Plant yn ymwneud â phlentyn a oedd ar y Gofrestr Amddiffyn Plant a/neu a oedd yn derbyn gofal ar ryw adeg yn ystod y 6 mis cyn y digwyddiad.
- Roedd 94% o blant/teuluoedd blaen wedi'u dwyn i sylw Gwasanaethau Plant neu'n hysbys iddynt. Dim ond 2 oedd yn anhysbys i'r awdurdodau, heb fod unrhyw bryderon diogelu amdanynt cyn y digwyddiad.
- Roedd dros hanner yr Adolygiadau Ymarfer Plant yn sôn am atgyfeiriad/adroddiad i Wasanaethau Plant, yr oeddent o'r farn ei fod islaw'r lefel difrifoldeb sy'n cyrraedd y trothwy ar gyfer ymyriad.
- Roedd yr asiantaethau allweddol eraill a oedd yn ymwybodol o'r plentyn neu'i deulu yn cynnwys yr Heddlu (20 achos allan o 33), y Fydwraig/Ymwelydd Iechyd (19) a Meddygon Teulu (17).
- Roedd y pynciau cyffredin a godwyd gan yr Adolygiadau yn cynnwys nifer fwy o ddulliau gweithredu sy'n ymdrin â'r teulu cyfan, chwilfrydedd proffesiynol, cynnwys llais y plentyn, rhannu gwybodaeth am iechyd a cholli apwyntiadau iechyd.

Wrth geisio deall y rhwystrau, yr heriau a'r llwyddiannau sy'n gysylltiedig ag adnabod yr angen i ddiogelu, ac ymateb i'r angen hwnnw, gwnaethom nodi tair thema gyffredinol ar draws yr Adolygiadau Ymarfer Plant – heriau i ymarferwyr ac asiantaethau, problemau strwythurol a gweithdrefnol, a dylanwadau ehangach sy'n effeithio ar ymarfer a phrosesau.

## THEMA 1 – ASIANTAETHAU AC YMARFERWYR

Datgelodd yr Adolygiadau Ymarfer Plant fod yna enghreifftiau, wrth asesu risg, o orddibynnu ar y teuluoedd eu hunain i sôn am broblemau, ac o ddiffyg herio gwybodaeth, a oedd weithiau'n cynnwys ffug-gydymffurfio. Roedd llawer o'r Adolygiadau yn annog mwy o chwilfrydedd proffesiynol gan ymarferwyr – ond nid oeddent yn manylu ar sut y gellir annog, hwyluso a gwreiddio'r chwilfrydedd hwnnw mewn ymarfer.

Roedd yr Adolygiadau hefyd yn amlygu achosion lle'r oedd diffyg dealltwriaeth gyflawn o wahanol fathau o niwed a oedd yn cyd-ddigwydd, ac roedd enghreifftiau'n dangos nad oedd sefyllfa lle gallai ffactorau risg gronni'n cael ei hystyried na'i chofnodi bob amser. I ddatblygu safbwynt holistaidd, rhaid ystyried y rhyngweithio rhwng gwahanol ffactorau risg – rhai hanesyddol, presennol a phosibl.

Roedd yr Adolygiadau yn cydnabod y dylid canolbwyntio ar y teulu cyfan, ond roeddent yn datgelu heriau mewn tri maes allweddol pan fyddai dull gweithredu o'r fath yn cael ei roi ar waith. Yn gyntaf, wrth geisio deall profiad go iawn plant o ddydd i ddydd a'r effaith ar frodyr/chwiorydd. Yn ail, wrth geisio sicrhau bod anghenion rhieni'n cael eu diwallu, a'r modd y mae hynny'n effeithio ar y plentyn. Ac yn drydydd, wrth ganolbwyntio ar y fam, a oedd yn aml yn golygu bod amgylchiadau a safbwyntiau'r tad yn cael eu deall a'u cynnwys i raddau llai.

Yn olaf, roedd cyfeiriadau fwy nag unwaith at wrando ar lais y plentyn. Roedd hynny'n cynnwys sut y caiff safbwyntiau'r plentyn eu cofnodi, sut y maent yn adlewyrchu profiad go iawn y plentyn o ddydd i ddydd, a sut y caiff llais y plentyn ei ddefnyddio wrth wneud penderfyniadau, sy'n hollbwysig.

## THEMA 2 – STRWYTHURAU A RHWYSTRAU I BROSESAU


Roedd yr Adolygiadau yn amlygu problemau o ran eglurder wrth ddeall penderfyniadau ac o ran 'ansicrwydd ynghylch trothwyau' – lle mae asiantaeth yn cyflwyno atgyfeiriad neu adroddiad ynghylch diogelu ond nad yw'n cyrraedd y trothwy ar gyfer ymyriad statudol. Roedd yr Adolygiadau yn nodi y dylai asiantaethau *"barhau i gyfeirio achosion at Wasanaethau Plant os yw pryderon am esgeulustod yn parhau"*. Roedd yna ansicrwydd hefyd ynghylch uwchgyfeirio a monitro pryderon am ddiogelu yn fewnol, ac roedd yna ddiffyg hyder i herio penderfyniadau gan uwch-aelodau o staff.

Mae rhannu gwybodaeth yn broblem ers amser. Roedd yr Adolygiadau yn dangos nad yw'r seilwaith sy'n bodoli ar gyfer rhannu gwybodaeth fel mater o drefn bob amser yn glir, a bod dryswch ynghylch cydlynu perchnogaeth. Mewn achosion lle nad yw pryderon am ddiogelu'n cyrraedd trothwy sy'n cyfiawnhau ymyriad statudol, gall y llwybrau ar gyfer cydlynu cyfrifoldebau diogelu rhwng asiantaethau fod yn aneglur. Un rhwystr allweddol yw'r diffyg strwythurau logistaidd ar gyfer rhannu gwybodaeth gynyddol. Nododd un Adolygiad fod *"platfformau rhannu gwybodaeth, sydd o gymorth i rannu gwybodaeth rhwng amryw asiantaethau, yn absennol neu'n anghydnaws"*.

Un thema gyffredin oedd cymhlethdod Iechyd fel sector. Mae wedi'i rannu gan amryw gylchoedd gorchwyl, strwythurau cymhleth a systemau TG tameidiog. Mae'r Adolygiadau yn dangos bod gwybodaeth yn aml yn hysbys ond nad yw'n cael ei rhannu fel mater o drefn. Seilwaith cyfyngedig sydd ar gael i hybu rhannu gwybodaeth mewn modd safonol ac effeithlon, yn enwedig os yw rhai cofnodion yn electronig ac eraill yn rhai papur. Yn y bôn, *"nid oes gan y Bwrdd Iechyd gofnod sengl ar gyfer claf"*.

# Model o Gymhlethdod Iechyd

*Nid yw'r sector Iechyd yn un sefydliad unedig. Mae agweddau ar y system yn gweithredu ar wahân, sy'n achosi heriau logistaidd o safbwynt alinio a chydlynu gwasanaethau. Mae'n bosib mai meddygfa'r meddyg teulu yw'r elfen gyffredin fwyaf tebygol ym maes iechyd, sy'n berthnasol i bob aelod o'r teulu a lle gallai gwybodaeth allweddol gael ei chasglu a'i deall.*



## THEMA 3 – DYLANWADAU EHANGACH AR YMARFER A PHROSESAU

At hynny, roedd yr Adolygiadau Ymarfer Plant yn nodi dylanwadau allanol ar ymarfer – yr heriau sy’n ymwneud â’r gweithlu a’r anawsterau a oedd yn ymwneud â diogelu yn ystod y pandemig Covid-19.

Roedd yr Adolygiadau yn amlygu problemau’n ymwneud â phrinder staff diogelu a oedd yn ddigon profiadol. Gall y profiad gwerthfawr hwn wella gallu ymarferwyr i ymateb i bryderon, deall y darlun ehangach a meithrin ymddiriedaeth gyda theuluoedd. Mae sicrhau bod ymarferwyr yn hyderus ac yn gymwys i weithio gyda’r teulu cyfan mewn amgylchedd heriol yn gofyn am hyfforddiant rheolaidd a diwylliant cefnogol yn y gwaith, gyda chapasiti i hwyluso goruchwyliaeth effeithiol ar draws pob un o lefelau’r gweithlu.

Cafodd y pandemig Covid-19, a’r mesurau cadw pellter cymdeithasol i’w wrthsefyll, effaith bellgyrhaeddol ar ddiogelu ar gyfer pob asiantaeth. Roedd lleihau cyswllt wyneb yn wyneb yn golygu bod llawer o deuluoedd dipyn yn llai gweladwy, a chafodd cau ysgolion effaith debyg. Er bod rhai plant a oedd yn hysbys i’r awdurdodau yn cael mynychu’r ysgol, nid oedd llawer ohonynt yn gwneud hynny. Cafodd ymarferwyr eu rhoi dan bwysau mawr i gydbwyso’r risgiau a achoswyd gan Covid â phryderon eraill am ddiogelu. Hyd yn oed wrth i bolisïau newydd a datblygiadau technolegol gael eu cyflwyno i liniaru effaith y cyfyngiadau, rhaid nodi na all dim gymryd lle rhyngweithio wyneb yn wyneb wrth asesu risg.

### ARFER DA

Roedd yr Adolygiadau yn amlygu achosion lle gwnaeth ymarferwyr ddangos chwilfrydedd proffesiynol ac ystyried gwybodaeth hanesyddol a’r posibilrwydd y gallai risgiau gyd-ddigwydd yn ogystal ag ymateb i’r teulu cyfan. Roedd hynny’n amlwg ar draws sectorau. Roedd yna adroddiadau am asiantaethau’n cynnal asesiadau o ansawdd da ac am weithdrefnau’n cael eu dilyn. Roedd yna enghreifftiau o waith cydweithredol, e.e. ymweliadau ar y cyd â gwahanol adrannau a rhwng asiantaethau, ac o gymorth o ran pontio gan asiantaeth yn cael ei ystyried ar ôl ymyriad statudol. Nodwyd bod arfer da o safbwynt rhannu gwybodaeth yn cael ei hwyluso nid yn unig drwy gyfarfodydd anffurfiol ond hefyd drwy sianelau ffurfiol, gydag ymarferwyr yn chwilio am wybodaeth ac yn ei rhannu’n rhagweithiol.


Roedd yr Adolygiadau yn nodi enghreifftiau lle’r oedd gan ymarferwyr yr eglurder, yr hyder, y cymhwysedd a’r capasiti i gydweithio’n effeithiol i ddiogelu, yn ogystal â bod y prosesau a’r systemau yn gweithredu’n iawn i gefnogi hynny. Er bod hynny efallai’n ymarfer safonol, nid yw weithiau’n gweithredu yn gyson fel hyn.

### 3. ADOLYGU’R ADOLYGIADAU

O gofio nodau Adolygiadau Ymarfer Plant, mae’n hanfodol eu bod yn glir ac yn gyson a’u bod yn cynnig argymhellion y gellir eu troi’n gamau gweithredu ystyrlon. Felly, gwnaethom archwilio ansawdd yr Adolygiadau, o ran eu strwythur, eu cynnwys a’r graddau yr oeddent yn glynu wrth brosesau cadarn. Gwelsom fod yr Adolygiadau yn amrywio:

- Nid oedd llawer ohonynt yn cynnwys dyddiadau allweddol – dyddiadau’r digwyddiad blaen, yr atgyfeiriad i’r is-grŵp Adolygiadau, y digwyddiad dysgu neu’r cyhoeddiad terfynol. Mae hynny’n ei gwneud yn anodd asesu’r graddau yr oeddent yn glynu wrth brosesau.
- Methodd pob Adolygiad â chwblhau proses yr Adolygiad cyn pen 6 mis, o’r adeg y daeth yr atgyfeiriad i law i’r adeg y cafodd adroddiad yr Adolygiad ei gwblhau (yn unol â Gweithio Gyda’n Gilydd i Ddiogelu Pobl, Cyfrol 2). Hyd y cyfnod ar gyfartaledd oedd 20.7 mis.
- Roedd yn cymryd 4 mis ar gyfartaledd i’r digwyddiad blaen gael ei atgyfeirio i Is-grŵp Adolygiadau’r Bwrdd.
- Roedd yr Adolygiadau yn cymryd 28 mis ar gyfartaledd, o adeg y digwyddiad blaen i adeg cwblhau adroddiad yr Adolygiad (14.6 mis – 66.3 mis oedd yr amrediad).
- Roedd yn cymryd 18 mis ar gyfartaledd i ddigwyddiad dysgu gael ei gynnal ar ôl y digwyddiad blaen – sy’n ei gwneud yn anodd cofio manylion, penderfyniadau a chamau gweithredu.
- Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn datgan y dylai adroddiad yr Adolygiad ganolbwyntio ar linell amser nad yw’n hirach na 12 mis cyn y digwyddiad blaen. Fodd bynnag, roedd llinell amser hanner yr adroddiadau’n fwy na 12 mis (roedd rhai’n hirach na 2 flynedd), er i’r mwyafrif egluro’u rhesymeg dros gymryd mwy o amser.
- Nododd tua dau Adolygiad o bob tri fod cyfnod y digwyddiad a/neu gyfnod yr Adolygiad wedi digwydd yn ystod cyfyngiadau Covid-19.

### Dyddiadau allweddol ym mhroses yr Adolygiad




# Cryfhau Cydgyfrifoldeb am Ddiogelu

Nid oes unrhyw atebion syml i'r problemau a ddisgrifir yn yr Adolygiadau Ymarfer Plant. Mae heriau cymhleth yn gofyn am ymateb amlasiantaeth. Er bod diogelu'n gyfrifoldeb i bawb, datgelodd y sampl o Adolygiadau enghreifftiau clir lle'r oedd yn anodd sefydlu cydgyfrifoldeb am ddiogelu lle mae yna ymateb cyson a systemig a lle gall pob ymarferydd gyfrannu'n ystyrlon. Nid yw'r dasg o weithio gyda theulu cyfan a'i amgylchedd yn perthyn yn hwylus i unrhyw ymarferydd neu asiantaeth unigol. Mae'n rhaid wrth waith amlasiantaeth, ond nid yw cytundeb a chonsenswS yr un fath â hwyluso logistaidd. Mae hynny'n gofyn am berthynas waith effeithiol rhwng ymarferwyr cymwys, a rhaid bod pob un yn deall yn glir beth a ddisgwylir ganddyn nhw, gan eu cyd-ymarferwyr a gan y system ei hun. Rhaid bod hynny'n gweithredu mewn modd cydweithredol a'i fod wedi'i alinio ar draws pob lefel, ac nid yn unig pan fo argyfwng a phan fydd pryder am ddiogelu'n cyrraedd y trothwy ar gyfer ymyriad statudol.

Eto i gyd, un o nodweddion amlycaf ein dadansoddiadau oedd diffyg seilwaith i hwyluso gwaith ar y cyd, rhannu gwybodaeth a chydweithio, nid yn unig rhwng sectorau ond hefyd oddi mewn iddynt. Ceir rhwystrau i gydweithio rhwng meddygon teulu, bydwragedd ac ymwelwyr iechyd, a nyrsys ysgol – mae ganddynt systemau gwahanol i gofnodi gwybodaeth, a strwythurau, cylchoedd gorchwyl ac amcanion gwahanol. Er yr ystyrir bod pob un ohonynt yn rhan o'r sector 'Iechyd', ceir mynediad cyffredin cyfyngedig i wybodaeth ganolog neu wybodaeth arferol. Rhaid, felly, i gydweithio gael ei alluogi; nid oes modd tybio ei fod yn digwydd.

Gofynnir yn barhaus i ymarferwyr ddangos 'chwilfrydedd proffesiynol'. Yn ogystal â gofyn am hyder a chymhwysedd, mae hynny hefyd yn tybio bod seilwaith cefnogol ar gael i fynd ar drywydd pryderon posibl, eu symud yn eu blaen a gweithredu ar eu sail. Realiti'r siwrnai ddiogelu yw'r ffaith nad yw'n dilyn llwybr syth, ac yn aml ni sylweddolir yn iawn faint o asiantaethau sydd efallai'n ymwneud â phlentyn, aelod o'r teulu neu'u hamgylchedd ar unrhyw un adeg. At hynny, ni ellir tybio bob amser bod yna lwybrau uniongyrchol i'r asiantaethau hynny allu cydweithio â'i gilydd gan ddefnyddio systemau cydnaws. Mae'r Model o Gysylltiadau, Ystyriaethau a Chymhlethdodau Amlasiantaeth yn dangos yr amryw gymhlethdodau y mae angen i ymateb amlasiantaeth eu hystyried, ac yn amlygu'r mannau lle gallai datgysylltu ddigwydd. Er nad yw'n ffenomenon newydd, mae'n dal yn her.




**Model o Gysylltiadau, Ystyriaethau a Chymhlethdodau Amlasiantaeth**

*Mae mwy o fanylion i'w gweld yn yr Adran 'Trafodaeth' yn yr Adroddiad Llawn.*

# Colli Apwyntiadau a Chyfleoedd

Un thema sydd wedi codi dro ar ôl tro mewn adolygiadau blaenorol (Rees et al., 2021: The Child Safeguarding Review Panel, 2022, NSPCC, 2022) yw mai'r her fwyaf yw 'Rhannu Gwybodaeth'. Nododd llawer o Adolygiadau Ymarfer Plant fod apwyntiadau iechyd a gollir yn broblem, gan gyfeirio at yr angen i ddilyn a gweithredu'r Protocol 'Heb Ei Hebrwng'. Ond hyd yn oed ar gyfer yr agwedd hon ar wybodaeth, ceir diffyg gallu i gofnodi, casglu a rhannu'r wybodaeth. Erys cwestiynau am berchnogaeth, am atebolrwydd ac am gydlynu'r camau gweithredu y mae angen eu cymryd yn y dyfodol i ymateb i'r wybodaeth drwy lens ddiogelu. Mae rhagor o wybodaeth ac enghraifft o achos i'w gweld yn 'Archwiliad manwl: apwyntiadau iechyd a gollir' yn yr adran 'Trafodaeth' yn yr adroddiad llawn.

Mae diffyg cofnod effeithiol ac unigol ar gyfer claf neu deulu, neu ddiffyg system TG gyffredin ar draws gwasanaethau Iechyd, yn rhwystr dyddiol i ymarferwyr. Ceir amryw haenau o wybodaeth ochr yn ochr ag apwyntiadau iechyd a gollir, a all greu darlun mwy cywir, sy'n cynnwys amodau gwael yn y cartref ac achosion lle mae'r heddlu yn bresennol oherwydd cam-drin domestig. Ar hyn o bryd, nid yw ein strwythurau diogelu yn llwyddo i gofnodi a chanoli'r wybodaeth hon – nid oes yna gydlynydd neu ganolfan ganolog sy'n cael y mathau hyn o wybodaeth 'lai moel', y nodir maes o law eu bod yn ffactorau risg allweddol pan fydd digwyddiadau tyngedfennol yn digwydd.

# Ein hargymhellion

Mae'r argymhellion hyn wedi'u bwriadu ar gyfer comisiynwyr yr ymchwil hon, sef y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol, er mwyn iddynt ystyried ac adolygu'r ffordd orau o'u symud yn eu blaen.

## 1. ARGYMHELLION AR GYFER YMARFERWYR A RHEOLWYR

*Ar gyfer y gweithwyr proffesiynol a'r asiantaethau sy'n gweithio ym maes diogelu, amlygodd ein hadolygiad sawl maes i'w hystyried:*

### 1.1 Hyfforddiant Partneriaeth Amlasiantaeth

Rydym yn argymell bod hyfforddiant amlasiantaeth rheolaidd yn sicrhau dealltwriaeth gyffredin, yn hwyluso trafodaethau rheolaidd am safbwyntiau gwahanol asiantaethau, ac yn cryfhau rolau a disgwyliadau o ran adnabod a rheoli pryderon am ddiogelu. Gall hynny helpu i oresgyn rhwystrau i gydweithio, a galluogi ymatebion mwy rhagweithiol, os ceir ansicrwydd ynghylch penderfyniadau am drothwyau ar gyfer ymyriadau, disgwyliadau asiantaethau a chyfrifoldebau unigolion. Dylai hyfforddiant fynd i'r afael yn benodol â'r canlynol:

- Deall llais y plentyn fel profiad go iawn y plentyn o ddydd i ddydd yn ei amgylchedd, a'r ffordd orau o gofnodi llais y plentyn, ei rannu'n briodol a'i ddefnyddio wrth wneud penderfyniadau a chyflwyno ymyriadau.
- Defnyddio dull gweithredu sy'n ymdrin â'r 'Teulu Cyfan', a datblygu gweithlu sy'n ddigon cymwys a hyderus i ddangos 'Chwilfrydedd Proffesiynol'. Mae angen i ymarferwyr ddeall cyfrifoldebau asiantaethau unigol a'r prosesau a'r llwybrau ar gyfer casglu gwybodaeth i adnabod risg sy'n dod i'r amlwg. Mae'n cynnwys ffactorau risg sy'n cyd-ddigwydd ac yn rhyngweithio â'i gilydd, gyda dealltwriaeth o effaith ddeinamig risgiau hanesyddol, presennol a phosibl wrth barhau i asesu niwed a risg.
- Meysydd thematig allweddol mewn astudiaethau achos o esgeulustod ac amodau gwael yn y cartref, y nodwyd yn y dadansoddiad eu bod yn ffactorau risg allweddol sy'n rhyngweithio â'i gilydd, yn ogystal ag mewn adroddiadau ehangach. Dylai hyfforddiant archwilio nid yn unig rolau a chyfrifoldebau gwahanol asiantaethau ond hefyd yr heriau go iawn wrth droi gwybodaeth a damcaniaethau'n ymarfer i nodi llwybrau ymyriadau a chymorth.

### 1.2. Chwilfrydedd Proffesiynol

Rydym yn argymell bod trafodaethau strategol yn cael eu cychwyn ar lefel awdurdodau lleol a Byrddau Diogelu Rhanbarthol, sy'n canolbwyntio ar sut y caiff chwilfrydedd proffesiynol ei annog, ei hwyluso a'i wreiddio mewn ymarfer fel dull gweithredu cyffredin oddi mewn i bob asiantaeth broffesiynol berthnasol a rhyngddynt. Gellir defnyddio hyfforddiant i fynd i'r afael â phroblemau'n ymwneud â disgwyliadau asiantaethau a chyfyngiadau mewn sectorau a rolau. Fodd bynnag, mae angen mwy o eglurder er mwyn archwilio sut y caiff chwilfrydedd ei wreiddio, ei gefnogi, ei adolygu a'i fonitro i sicrhau ei fod mor effeithiol ag sy'n bosibl a'i fod yn parhau felly.

## 1. ARGYMHELLION AR GYFER YMARFERWYR A RHEOLWYR (parhad)

### 1.3 Blaenoriaethu Cymorth a Goruchwyliaeth ar gyfer pob ymarferydd:

Dylai rheolwyr sicrhau eglurder ynghylch disgwyliadau o ran goruchwyliaeth ffurfiol ym maes diogelu ar gyfer ymarferwyr perthnasol. Dylai hynny gynnwys manylion am amlder, hyd ac amcanion goruchwyliaeth, a dangos dealltwriaeth o sut y bydd hynny'n cael ei adolygu a'i fonitro yn fewnol.

- Rhaid i Fyrddau Diogelu Rhanbarthol gael sicrwydd bod goruchwyliaeth reolaidd ac effeithiol yn digwydd ar draws sectorau, a allai ei gwneud yn ofynnol, er enghraifft, i asiantaethau perthnasol gyflwyno adroddiadau i'r Byrddau Diogelu Rhanbarthol. Bydd y gwaith monitro hwn yn rhoi hyder bod goruchwyliaeth ar draws partneriaid diogelu yn waith pwrpasol a dylanwadol sydd o ansawdd digonol. At hynny, dylai goruchwyliaeth geisio cynnwys y ffordd orau o hwyluso cydweithio â phartneriaid allweddol.
- Yn ogystal, dylai rheolwyr geisio darparu ac adolygu cyfleoedd anffurfiol i ymarferwyr gael mynediad i gymorth ym maes diogelu.

## 2. ARGYMHELLION AR GYFER AWDURDODAU A BYRDDAU

*Ar gyfer y sefydliadau sy'n gyfrifol am gyflawni gwaith diogelu, amlygodd ein hadolygiad sawl maes i fynd i'r afael â nhw:*

### 2.1. Ansicrwydd ynghylch Trothwyau, a Gwella Penderfyniadau, Cytundeb a Her

Rydym yn cydnabod bod yna ddadlau am y term 'trothwyau', ond yn yr adolygiad hwn defnyddir y term i ddisgrifio proses gwneud penderfyniadau er mwyn penderfynu ar y camau nesaf a chael mynediad i ymateb/ymyriad gan wasanaeth ar adeg benodol. Nododd yr adolygiad hwn yr angen am y canlynol:

- Trothwyau Amlasiantaeth – dylid cytuno'n rhanbarthol ar arweiniad, er mwyn egluro disgwyliadau a chael pwynt cyfeirio ar gyfer ymarferwyr pan fyddant yn cyflwyno atgyfeiriadau diogelu. Dylid mynd i'r afael â meysydd sy'n peri pryder, sy'n aml yn destun amwysedd a deongliadau gwahanol, er enghraifft esgeulustod. Dylai hynny hefyd gynnwys llwybrau clir ar gyfer symud pryderon yn eu blaen a herio penderfyniadau, os bydd pryder am ddiogelu'n parhau ar ôl i benderfyniad ynghylch trothwy gael ei wneud.
- Dylai polisïau a phrotocolau lleol ynghylch rheoli pryderon newydd neu rai sy'n gwaethygu, ac ynghylch datrys gwahaniaethau proffesiynol, ddarparu llwybrau a phrosesau tryloyw a hygyrch. Dylid cyfeirio at hynny yn yr arweiniad ynghylch Trothwyau Amlasiantaeth a'i fonitro yn rhan o adolygiadau mewnol.

### 2.2. Gweithio tuag at gofnod iechyd unedig

Mae'r adolygiad hwn wedi amlygu natur allweddol, ond cymhleth, asiantaethau'r sector Iechyd ym maes diogelu. Cydnabyddir bod y dasg yn un heriol, ond mae angen gwneud gwaith ar frys i hybu ymhellach y gwaith o hwyluso cael cofnod iechyd unedig. Mae hynny'n golygu:

- Dod â gwybodaeth o ystod o wasanaethau Iechyd, megis meddygfeydd meddygon teulu, gwasanaethau bydwreigiaeth ac ymwelwyr iechyd. Mae'n waith arbennig o hanfodol i'w gwneud yn bosibl canolbwyntio ar y teulu cyfan, wrth nodi pryderon am ddiogelu sy'n dod i'r amlwg. Yn absenoldeb systemau TG cyffredin, rhaid ystyried datblygu dulliau sy'n ei gwneud yn bosibl rhannu gwybodaeth arferol yn brydlon ac sy'n hybu datblygu cydberthnasau rhwng yr ymarferwyr hyn.
- I fynd i'r afael â chymhlethdod y GIG a'i is-adrannau rydym yn argymell datblygu gyda rhanddeiliaid Weithgor Diogelu ym maes Iechyd, a arweinir yn genedlaethol, er mwyn ystyried y rhwystrau a'r cyfleoedd i gydweithio ac er mwyn rhannu gwybodaeth yn effeithiol ynglŷn â phryderon lefel isel am ddiogelu a phryderon am ddiogelu sy'n dod i'r amlwg.
- Dylai unrhyw weithgorau geisio cysylltu ag Adran Addysg Llywodraeth y DU ynghylch ei gwaith peilot i wella dulliau o rannu gwybodaeth mewn modd amlasiantaeth gan ddefnyddio 'Dynodydd Plentyn Cyson[1]'.

### 2.3. Mesur Effeithiolrwydd mewn Trefniadau Diogelu

Mae angen tystiolaeth gliriach gan Fyrddau Diogelu Rhanbarthol/awdurdodau lleol i ddangos effeithiolrwydd eu trefniadau diogelu amlasiantaeth.

- Anogir Byrddau Diogelu Rhanbarthol ac awdurdodau lleol i fabwysiadu'r Model Cydgyfrifoldeb am Ddiogelu: Y 12 Elfen (Ball a McManus, 2023) fel pecyn cymorth. Mae'r model 12 Elfen yn nodi'r 12 elfen ar draws "Ymarferwyr ac Asiantaethau" yn ogystal â "Strwythurau a Phrosesau". Bydd hynny o gymorth i nodi heriau a llywio gwaith sydd wedi'i dargedu yn fwy helaeth, ac o gymorth hefyd i nodi arfer gorau.
- Mae angen i Fyrddau Diogelu Rhanbarthol wella tryloywder wrth gyflawni argymhellion Adolygiadau Ymarfer Plant. Dylai pob Adolygiad o'r fath a gwblheir gan Fwrdd Diogelu Rhanbarthol fod yn destun adolygiad blynyddol mewnol (e.e. yn rhan o archwiliadau blynyddol/adroddiadau diogelu corfforaethol). O gofio bod pob Adolygiad Ymarfer Plant yn darparu rhestr o argymhellion a chamau gweithredu gofynnol, dylai'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol geisio crynhoi'r holl argymhellion a'r holl gamau gweithredu sy'n ofynnol i wella ymatebion diogelu. Dylai'r broses hon geisio nodi themâu cyffredin, rhannu gwersi a deall yn well y gwelliannau sy'n ofynnol ar draws y rhanbarth.

[1] https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/1168239/Improving_multi-agency_information_sharing.pdf

## 3. ARGYMHELLION AR GYFER LLUNWYR POLISI

*Ar gyfer yr unigolion sy'n gyfrifol am lywio'r gwaith o ddatblygu'n barhaus ein dull o ddiogelu, amlygodd ein hadolygiad sawl maes i fynd i'r afael â nhw:*

### 3.1. Datblygu Pyrth wedi'u Hawtomeiddio ar gyfer Atgyfeiriadau/Adroddiadau Diogelu

O gofio'r cymhlethdodau a nodwyd mewn asiantaethau a sefydliadau diogelu sy'n amgylchynu'r uned deuluol (gweler y Model o Gysylltiadau, Ystyriaethau a Chymhlethdodau Amlasiantaeth), ochr yn ochr â'r amryw Lwybrau Diogelu posibl (gweler Atodiad 4 yr adroddiad llawn), dylai gwaith blaenoriaethu ganolbwyntio ar greu pyrth wedi'u hawtomeiddio ar gyfer cael pryderon gweithwyr proffesiynol am ddiogelu, adolygu'r pryderon hynny a'u rheoli. Byddai hynny'n galluogi mwy o gyfleoedd i rannu pryderon a gwybodaeth lai moel yn effeithiol.

- Byddai cael hysbysiadau am wybodaeth sydd wedi dod i law, ochr yn ochr â chyfeirnodau atgyfeirio unigryw, yn annog atgyfeirwyr i fynd ar drywydd unrhyw benderfyniadau ac yn annog adborth. Byddai hynny'n gwella'r gallu i chwilio am wybodaeth ac i gasglu gwybodaeth am blentyn, am y teulu ehangach ac am y cartref er mwyn creu darlun cyflawn o'r pryderon a fynegwyd.
- Rydym yn nodi y byddai angen adnoddau ychwanegol i weithredu hynny, ac y byddai angen i hynny weithio yn y systemau a'r llwybrau sy'n bodoli eisoes, megis Canolfannau Diogelu Amlasiantaeth/Canolfannau Diogelu a phrosesau drws ffrynt y system Gwybodaeth, Cyngor a Chynhorthwy.

### 3.2. Cofnodi ac Arweiniad ynghylch esgeulustod ac amodau'r cartref

Nododd sawl Adolygiad Ymarfer Plant broblemau o ran ansicrwydd ymarferwyr ynghylch pa fanylion yr oedd angen adrodd amdanynt i sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei chasglu'n gywir. Fel yn achos yr argymhellion eraill sydd yn yr adolygiad hwn, mae angen i'r effaith ar holl aelodau'r teulu gael ei hystyried yn yr asesiadau hyn ac wrth gofnodi.

- Dylai cofnodion diogelu nodi'r pryderon amrywiol, cronnol a pharhaus a fynegwyd, pa gamau gweithredu a gymerwyd, a hirhoedledd unrhyw newidiadau a wnaed. Byddai hynny'n ei gwneud yn bosibl rhoi arweiniad cyfredol ar waith yn fwy helaeth, megis Gweithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan: Canllaw Ymarfer Cymru Gyfan ar Ddiogelu Plant Rhag eu Hesgeuluso (2021).
- Dylai Byrddau Diogelu Rhanbarthol geisio adolygu sut y caiff esgeulustod a phryderon am amodau'r cartref eu cofnodi, a phwy sy'n perchenogi'r pryderon hynny ac yn cymryd cyfrifoldeb amdanynt, gan ddefnyddio eu gallu i echdynnu gwybodaeth sy'n nodi diffyg cynnydd cynyddol a/neu barhaus gan asiantaethau perthnasol.
- Dylai awdurdodau geisio datblygu seilwaith amlasiantaeth yn genedlaethol, er mwyn hybu gwaith rhannu gwybodaeth lai moel am ddiogelu ac er mwyn meithrin dealltwriaeth fwy cywir o'r gwahanol fathau o niwed a gofnodir.
- At hynny, gallai defnydd ehangach a mwy cyson o'r system Gwybodaeth, Cyngor a Chynhorthwy gynnig ffordd o ddatblygu hynny.

### 3.3. Adolygu'r Protocol 'Heb Ei Hebrwng' er mwyn rhoi'r polisi hwn ar waith gymaint ag y bo modd

Nododd llawer o Adolygiadau Ymarfer Plant fod angen i'r Protocol 'Heb Ei Hebrwng' gael ei roi ar waith yn fwy helaeth, yn enwedig yng nghyswllt apwyntiadau iechyd a gollir.

- Mae angen datblygu protocol 'Heb Ei Hebrwng' cenedlaethol ar gyfer pob asiantaeth, sy'n berthnasol i bob Bwrdd Diogelu Rhanbarthol. Dylai ddarparu llwybr gweithredu clir, gan nodi rolau a chyfrifoldebau pob asiantaeth a gaiff ei hysbysu am wybodaeth, os oes angen gweithredu ar ei sail.

### 3.4. Gweithredu'r 12 Elfen fel Fframwaith Arweiniad a Phecyn Cymorth Archwilio

Rhaid ystyried sut y gall asiantaethau hwyluso cydweithredu a chydweithio, a meithrin cydgyfrifoldeb am ddiogelu. Cafodd y Model Cydgyfrifoldeb am Ddiogelu: Y 12 Elfen (Ball a McManus, 2023) ei ddatblygu'n rhan o'r Gwerthusiad Cenedlaethol, Llywio Dyfodol Trefniadau Diogelu Amlasiantaeth yng Nghymru (McManus et al., 2022).

- Gwnaethom argymell gweithredu'r model hwn i ategu Fframweithiau Arweiniad presennol a Phecynnau Cymorth Archwilio ar draws Byrddau Diogelu Rhanbarthol ac awdurdodau lleol er mwyn helpu i ddangos unrhyw fesurau a fabwysiadwyd yn lleol i hwyluso trefniadau diogelu amlasiantaeth, eu cydlynu a dangos tystiolaeth eu bod yn cael eu gweithredu.
- Byddai gweithredu fframwaith y 12 Elfen yn golygu bod angen i Fyrddau Diogelu Rhanbarthol/awdurdodau lleol ymateb i bob un o'r 12 Elfen yn eu tro i ddangos beth sydd wedi'i roi ar waith neu beth y bwriedir ei weithredu, er mwyn ymdrin â'r maes hwn. Ceir opsiwn hefyd i raddio'r cynnydd a wnaed o ran pob un o'r 12 Elfen, y gellir ei adolygu'n flynyddol a'i fonitro.

### 3.5. Sicrhau Ansawdd Adolygiadau Ymarfer Plant

Gwnaeth yr adroddiad llawn ddadansoddi'r Adolygiadau Ymarfer Plant eu hunain yn fanwl, gan gynnwys ansawdd yr adroddiad a'r graddau yr oedd yn glynu wrth y prosesau sydd mewn arweiniad a deddfwriaeth. Mae'r argymhellion yn nodi fel a ganlyn:

- Dylai Adolygiadau Ymarfer Plant gwblhau'r agwedd ar y broses adolygu sy'n ymwneud â 'thasgau craidd', fel y diffinnir gan y cylch gorchwyl. Rydym wedi tynnu sylw at y rhestr lawn o argymhellion ac at y templed a ddarperir yn ein hadroddiad llawn. Dylai'r templed hwn gael ei fabwysiadu er mwyn sicrhau bod gwybodaeth fanwl yn cael ei darparu'n gyson mewn Adolygiadau Ymarfer Plant.
- Dylid adolygu'r llinellau amser o'r adeg y caiff achos ei gyfeirio at yr is-grŵp i'r adeg y caiff yr adroddiad ei gwblhau. Roedd llawer o Adolygiadau Ymarfer Plant yn cymryd dros ddwywaith y 6 mis a awgrymir. Rhaid rheoli disgwyliadau a chydnabod yr heriau ar gyfer prosesau adolygu yn y dyfodol.
- Wrth symud tuag at broses yr Adolygiad Diogelu Unedig Sengl yng Nghymru, dylai'r argymhellion hyn gael eu hystyried gan y Grŵp Llywio Cenedlaethol er mwyn gwella ansawdd pob adolygiad amlasiantaeth a sicrhau eu bod yn arwain at gymaint o ddysgu ag sy'n bosibl.

# Model o Ansawdd a Chysondeb Adolygiadau Ymarfer Plant

*Mae mwy o fanylion am yr argymhellion hyn i'w gweld yn ein hadroddiad llawn*




> "Mae angen dealltwriaeth well o rolau a chyfrifoldebau asiantaethau sy'n cynorthwyo'r teulu, er mwyn i'r wybodaeth iawn gael ei rhannu"

IN WALES

# Sylwadau clo

Mae'r Adolygiadau Ymarfer Plant a adolygwyd yn cynrychioli lleiafrif o senarios diogelu. Ar draws ein portffolio eang o waith ym maes diogelu amlasiantaeth yng Nghymru yn ystod y 3 blynedd diwethaf a mwy[2], rydym wedi gweld enghreifftiau di-ri o weithwyr proffesiynol ymroddedig sy'n gwneud mwy na'r disgwyl i gynorthwyo plant, pobl ifanc a'u teuluoedd. Yn wyneb galw digynsail, toriadau ariannol a heriau o ran recriwtio, mae'n hanfodol ein bod yn cydnabod eu cyfraniad i gadw plant yn ddiogel.

Mae llawer o ganfyddiadau'r adolygiad hwn yn adleisio canfyddiadau ymchwil, polisi ac arweiniad blaenorol, a nododd heriau wrth weithio ym maes diogelu amlasiantaeth. Rydym yn gobeithio bod y dadansoddiad thematig hwn yn cynnig archwiliad manwl o'r ffactorau sylfaenol sy'n achosi'r heriau hynny, yn ogystal â nodi'r dasg gymhleth o droi polisi'n ymarfer.

Caiff gwaith diogelu amlasiantaeth effeithiol ei gyflawni drwy sicrhau bod cydgyfrifoldeb am ddiogelu'n cael ei alluogi a'i gynnal ar draws asiantaethau perthnasol. Er i'n hadolygiad ddatgelu sawl mater hollbwysig y mae angen eu blaenoriaethu ar frys, nododd hefyd enghreifftiau o arfer da y dylid eu cydnabod a'u canmol. Mae ymarferwyr ac arweinwyr ar draws asiantaethau'n gweithio yn ddiflino ac yn barhaus gyda theuluoedd i ddarparu ymateb diogelu cadarn a chyflawni canlyniadau cadarnhaol. Mae gwaith diogelu effeithiol yn gofyn am adnoddau digonol i fuddsoddi mewn gweithlu sy'n hyderus ac yn gymwys ac sy'n cael cefnogaeth i ddarparu ymateb o safon o ran gwasanaeth.

[2] Gweler gwaith Cam 1 (2020): https://bwrdddiogelu.cymru/wp-content/uploads/sites/9/2021/01/Final-report-Phase-1-cym-January-2020.pdf a'r Prosiect Llywio Dyfodol Diogelu (2022): https://bwrdddiogelu.cymru/2022/11/15/shaping-the-future-of-safeguarding-in-wales-project-findings-from-liverpool-john-moores-university/



## YNGLŶN Â'R AWDURON

Mae'r Athro Michelle McManus yn Athro Diogelu ac Atal Trais ym Mhrifysgol Metropolitan Manceinion.

Mae Emma Ball yn Gydymaith Ymchwil Diogelu ac Atal Trais ym Mhrifysgol Metropolitan Manceinion.

Mae'r Athro Louise Almond yn Athro Seicoleg Ymchwiliol a Fforensig ym Mhrifysgol Lerpwl.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'r Athro Michelle McManus, M.McManus@mmu.ac.uk

Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol Cymru
National Independent Safeguarding Board Wales

Cafodd yr adolygiad ei gomisiynu gan Fwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol Cymru